# BWLETIN Y FARCHNAD HCC


IONAWR 2018

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â Hybu Cig Cymru ar 01970 625050 neu e-bostiwch info@hccmpw.org.uk.


## Y sector defaid

Roedd y prisiau am ŵy n ar ddechrau 2017 yn is na phrisiau'r flwyddyn flaenorol yn nhri mis cyntaf y flwyddyn, er bod nifer yr ŵy n a gafodd eu cludo i ladd-dai yn y DU ychydig yn llai nag yn 2016 a 2015. Y galw isel gan ddefnyddwyr, yn enwedig yn y farchnad ddomestig ac yn Ffrainc, oedd y prif ffactorau a gyfrannodd at y dechrau dilewyrch i'r flwyddyn. Yn ystod y tri mis hyn, roedd prisiau'r marchnadoedd ocsiwn yng Nghymru yn amrywio rhwng 168c/kg a 174c/kg gan mwyaf er eu bod wedi gwella'n raddol tua diwedd Mawrth wrth i'r caffael ar gyfer cyfnod y Pasg roi hwb calonogol.

Wrth i'r niferoedd a ddygwyd ymlaen leihau roedd y fasnach wedi gwella yn Ebrill, ond y gwir wahaniaeth rhwng 2017 a'r blynyddoedd blaenorol oedd y gostyngiad sylweddol a gofnodwyd yn nifer yr Ŵy n Hen Dymor a gariwyd ymlaen i fis Mai. Roedd hyn yn amlwg yn y marchnadoedd pan gofnodwyd prisiau Ŵy n Tymor Newydd yn unig (wythnos yn diweddu 20 Mai): y pris cyfartalog oedd 238c/kg, mwy na 30c yn uwch nag yn yr un cyfnod yn 2016. Mae'r newid hwn mewn prisiau'n dangos yr effaith sylweddol y mae cynnydd yn nifer yr ŵy n sy'n cael eu cario drosodd i'r gwanwyn yn gallu ei chael ar y farchnad. Mae'n bwysig nodi bod y niferoedd uchel o Ŵy n Hen Dymor wedi effeithio ar y fasnach mewn Ŵy n Tymor Newydd yn 2016 a 2015 a bod hynny, ynghyd â chryfder Sterling yn erbyn yr Ewro, yn golygu nad oedd prisiau wedi gwella yn ystod y ddwy flynedd hyn, yn groes i'r disgwyl. Wrth edrych ymlaen, mae'n anodd rhag-weld beth fydd yn digwydd ym misoedd cyntaf 2018 ond, oherwydd y cynnydd yn nifer yr ŵy n a anwyd yn 2017 a gofnodwyd yn Arolwg Mehefin y DU a'r ffaith bod nifer yr ŵy n a laddwyd yn y DU yn 8% yn is (yn cyfateb i fwy na hanner miliwn o ŵy n) yn y cyfnod rhwng Mehefin a Thachwedd, mae'n debygol y bydd niferoedd sylweddol o ŵy n ar gael yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn.




Roedd y bunt wannach yn thema a barhaodd drwy gydol 2017 ac roedd allforwyr y DU yn fwyfwy cystadleuol o ganlyniad i hyn yn rhai o'r prif farchnadoedd allforio cig oen. Y disgwyl yw y bydd cynnydd wedi bod erbyn diwedd y flwyddyn yn y meintiau a allforiwyd i bron pob un o'r prif farchnadoedd tramor o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac y bydd gwelliant o 10% a mwy yn y rhan fwyaf ohonynt (heblaw Ffrainc lle bydd y lefelau'n debyg).





Roedd y gwelliant hwn mewn cystadleurwydd yn amlwg yn ystod misoedd yr haf ac yn golygu bod y prisiau a welwyd yn y farchnad rhwng Mehefin a chanol Awst yn uwch na lefelau 2016 a 2015 drwy gydol y cyfnod hwn. Oherwydd yr ansicrwydd sy'n bod o hyd ynghylch telerau ymadael y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n debygol y bydd Sterling yn parhau'n gymharol wan yn erbyn mathau eraill o arian felly dylai hyn alluogi allforwyr y DU i fod yn weithgar mewn nifer o farchnadoedd Ewropeaidd yn 2018.

| Defaid a laddwyd yn y DU (Mehefin – Tachwedd) | | |
|---|---|---|
| | Wyn Dethol | Mamogiaid a Hyrddod Difa |
| | (000 o anifeiliaid) | |
| 2017 | 6,449.7 | 783.0 |
| 2016 | 6,997.0 | 896.3 |
| 2015 | 7,163.9 | 871.1 |

Ar ddiwedd Awst ac ym mis Medi, roedd prisiau'r farchnad wedi gostwng o dan lefelau 2016 am y tro cyntaf ers mis Ebrill. Fodd bynnag, byddai'r dyddiad cynharach ar gyfer gŵy l Fwslimaidd Eid al-Adha eleni wedi dylanwadu ar hyn, fel y mae'r ffaith bod prisiau mis Hydref yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol yn dangos, a pharhaodd y patrwm hwn am weddill y flwyddyn. Mae'r ŵy l Fwslimaidd yn cael effaith gadarnhaol ar y farchnad ond mae'n dechrau tua 10 diwrnod yn gynharach bob blwyddyn ac felly'n gallu achosi gwyriadau bach wrth gymharu patrymau prisiau wythnosol o flwyddyn i flwyddyn. Ffactor arall a fyddai wedi dylanwadu ar brisiau'r farchnad yn ystod y cyfnod oedd y farchnad ddomestig dawel. Mae data Kantar Worldpanel yn dangos bod llai o gig oen ffres wedi'i brynu o fis i fis yn ystod rhan helaeth o 2017 o'i gymharu â'r un cyfnod 12 mis yn gynharach; un ffactor a fyddai wedi sbarduno'r gostyngiad mewn gwerthiant yw prisiau manwerthu uwch. Mae hyn yn amlygu'r berthynas gryf sy'n bodoli rhwng gwerthiant cig oen a'i bris manwerthu. Yn 2018 bydd y maint o gig oen a brynir yn dibynnu ar nifer o ffactorau ond mae'n sicr mai'r polisi ar brisiau manwerthu fydd un o'r sbardunau cryfaf.

## Y sector gwartheg

Mae prisiau gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y flwyddyn a graddol oedd unrhyw newid yn y lefelau. Gan edrych ar y flwyddyn gyfan, nid oedd ond 30c o wahaniaeth rhwng y pris wythnosol isaf a'r uchaf am fustych pwysau marw yng Nghymru a Lloegr (339c/kg ym Mawrth a 369c/kg ar ddiwedd Awst). Mae'r cysondeb prisiau hwn yn awgrymu bod y cyflenwad a'r galw yn y sector cig eidion dethol yn gytbwys am ran helaeth o'r flwyddyn. Gwelir wrth gymharu prisiau 2017 â'r rheini ar gyfer y flwyddyn flaenorol fod y lefel pwysau marw yn gyson uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2016 drwy gydol y flwyddyn. Roedd y gwahaniaeth pris am fustych ar ei fwyaf ar ddechrau Gorffennaf pan oedd gwahaniaeth o 43c rhwng lefelau 2017 a 2016. Roedd y gwahaniaeth yn llai amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ac erbyn yr wythnos olaf (yn diweddu 30 Rhagfyr) roedd y gwahaniaeth yn ddim ond 10c.




Patrwm a ddaeth i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw bod pwysau gwartheg dethol wedi'u pesgi a gyflwynir i'w lladd yn gostwng. Yn 11 mis cyntaf y flwyddyn, roedd pwysau cyfartalog y carcasau wedi gostwng 2kg o'r flwyddyn flaenorol i 349kg. Gwelir wrth ddadansoddi'r ffigur hwn fod pwysau cyfartalog carcasau heffrod wedi codi mewn gwirionedd ond roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o bron 6kg (o'i gymharu â'r cyfnod rhwng Ionawr a Thachwedd 2016) ym mhwysau carcasau bustych a oedd yn 367kg ar gyfartaledd. Yn gyffredinol, gwelir bod nifer yr anifeiliaid a gyflwynwyd i'w lladd wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae hyn yn egluro'r gwelliant a welwyd ym mhrisiau gwartheg yn ystod y flwyddyn i ryw raddau.

| Anifeiliaid a laddwyd yn y DU (Ionawr – Tachwedd) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bustych | Heffrod | Teirw Ifanc | Buchod a theirw difa |
| | (000 o anifeiliaid) | | | |
| 2017 | 938.9 | 651.1 | 188.6 | 580.7 |
| 2016 | 943.1 | 664.8 | 210.4 | 622.8 |
| 2015 | 926.6 | 655.2 | 193.6 | 567.4 |

Gan edrych ymlaen, mae data BCMS yn awgrymu y gallai mwy o wartheg dethol fod ar gael yn 2018 ond os bydd y patrwm o ran carcasau ysgafnach yn parhau, gallai hyn arafu rhywfaint o'r twf posibl mewn cynnyrch domestig.

Bydd datblygiadau yn y sector yr ochr draw i Fôr Iwerddon yn dylanwadu bob amser ar bris cig eidion yn y DU. Gan fod galw cymharol gadarn am gig eidion yn y DU, ni ddylid synnu gormod bod lefelau'r mewnforion o gig eidion i'r DU a gofnodwyd yn ystod deg mis cyntaf y flwyddyn yn 4% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol ar 223.4 o filoedd o dunelli. Mae cig eidion o Iwerddon yn elfen bwysig yn y ffigur hwn (tua 70%) ac mae hyn yn dangos, er bod y bunt yn wannach, fod Iwerddon yn parhau i weld y DU yn farchnad allweddol ar gyfer allforio cig eidion.

## Y sector moch

Er bod y pris cyfartalog am foch wedi aros yn uwch na lefelau 2016 am y rhan fwyaf o 2017, cafwyd datblygiadau pwysig yn y sector hwn yn ystod y flwyddyn. Yn hanner cyntaf 2017, cafwyd twf parhaus o wythnos i wythnos wrth i broseswyr geisio sicrhau cyflenwad digonol i ateb y galw. Erbyn diwedd Gorffennaf, roedd y pris wedi cyrraedd ei bwynt uchaf yn y flwyddyn ar 168.5c/kg am bris cyfartalog moch (manyleb yr UE) ym Mhrydain Fawr. Ar y pwynt hwn, roedd y pris yn 35c yn uwch na'r lefel yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Er hynny, nid hwn oedd y gwahaniaeth mwyaf a welwyd yn y pris y flwyddyn hon (44c ym mis Mai).

Ers cyrraedd yr uchafbwynt hwn, mae prisiau moch wedi gostwng yn raddol ac mae'n debygol y bydd prisiau diwedd y flwyddyn wedi mynd yn is na lefelau 2016 am y tro cyntaf a'r unig dro yn 2017. Mae'r gostyngiad mewn prisiau wedi digwydd yr un pryd â chynnydd yn nifer y moch wedi'u pesgi a gyflwynwyd i'r farchnad a chan fod y rhagolygon yn dangos y bydd nifer y moch a gyflwynir i'w lladd yn cynyddu yn 2018 mae'n debygol y bydd y pwysau ar brisiau'n parhau.

